

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru
Digwyddiadau**



Cynhadledd Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu

Gwesty Marriott, Caerdydd
26 Medi 2019

**Mae'n ymwneud
â'r bobl i gyd**





Cynhadledd Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu 2019 Trosolwg

Mae'n wirioneddol gyffrous cynnal y digwyddiad un-dydd hwn sy'n cwmpasu swyddogaethau Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu i drin y materion pwysig sy'n wynebu ein proffesiwn, ein sefydliadau a'n sector.

9:00am	Cofrestru, Gweld yr Arddangosfa a Brechdanau Brecwast
9:30am	Croeso <i>Siobhan Johnson, Cadeirydd Grŵp Cyflenwi Strategol Adnoddau Dynol</i>
9:40am	Lansio Dyma'r Sector Tai <i>Y Tîm Brandio – Kate Griffiths, CCHA, Donna Howells, UWHA, Mark Woods, Trivallis a Rebecca Goodhand, CHC</i>
10:00 – 10:45am	IS-SESIWN LAWN 1: Police Now – Taro'r Post <i>Police Now</i>
10:00 – 10:45am	IS-SESIWN LAWN 2: Ymladd Blinder - Yr hyn y gall Dysgu & Datblygu ei wneud i ymagnïo staff mewn dysgu <i>Robin Hoyle, Learnworks Cyf</i>
10:45 – 11:15am	Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio
11:15 – 12:00pm	Datrys Cod Timau Perfformiad Uchel <i>Nick Fewings, Ngagementworks</i>
12:00 – 12:45pm	GWEITHDY 1: Tactegau ar gyfer Terfynu <i>Louise Price, Hugh James Cyfreithwyr</i>
12:00 – 12:45pm	GWEITHDY 2: Dylunio Strategaeth Gwobr a Budd Holistig i hybu twf <i>Balijinder Kang, Midland Heart</i>
12:00 – 12:45pm	GWEITHDY 3: Creu diwylliant o ddysgu hunan-gyfeiriedig <i>Jane Hubbard, Sw Caer</i>



12:00 – 12:45pm	GWEITHDY 4: Niwrowyddoniaeth ar gyfer dysgu - gwella perfformiad drwy brofiadau cofiadwy <i>Allison Taylor, Central Consultance and Training</i>
12:00 – 12:45pm	GWEITHDY 5: Gweithredu'r system Adnoddau Dynol <i>Bev Flood, Cartrefi Dinas Casnewydd</i>
12:45 – 1:30pm	Cinio, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio
1:30 – 2:15pm	IS-SESIWN LAWN 3: Trawsnewid Diwylliant Digidol <i>Cyfarwyddydd Trawsnewid Pobl, Tŷ Cwmnïau</i>
1:30 – 2:15pm	IS-SESIWN LAWN 4: Beth sy'n newydd ac arloesol mewn dysgu digidol <i>Kate Graham, Fosway Group</i>
2:15 – 3:00pm	GWEITHDY 6: Brexit - golwg ymarferol ar y newidiadau yn y gyfraith <i>Richard Thomas & Susie Matthisen, Capital Law</i>
2:15 – 3:00pm	GWEITHDY 7: Creu dull gweithredu pobl yn gyntaf ar gyfer Adnoddau Dynol <i>Jane Jones, Grŵp Curo</i>
2:15 – 3:00pm	GWEITHDY 8: Dyfodol Dysgu <i>Neil Almond, 91 Untold</i>
2:15 – 3:00pm	GWEITHDY 9: Rôl Dysgu a Datblygu fel Gwneuthurwyr Newid <i>Melanie Lopine, Grŵp Domestic & General</i>
2:15 – 3:00pm	GWEITHDY 10: Allan â'r hen, mewn â'r newydd <i>Fflur Jones, Darwin Gray</i>
3:00 – 3:30pm	Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio
3:30 – 4:15pm	Datblygu gwytnwch <i>Ian Rothwell a Paul Chudleigh, R W Learning</i>
4:15 – 4:45pm	Dyfodol Adnoddau Dynol <i>Edward Houghton, CIPD</i>
4:45pm	Casgliadau'r Gynhadledd
4:50pm	Gadael

Mae'n wirioneddol gyffrous cynnal y digwyddiad un-dydd hwn sy'n cwmpasu swyddogaethau Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu i drin y materion pwysig sy'n wynebu ein proffesiwn, ein sefydliadau a'n sector. Mae gennym lawer o gwmnïau blaengar o'r tu allan i'r sector tai i helpu rhannu eu profiad o weithredu rhaglenni a chynlluniau a newid i gyfarch y newid yn natur eu busnesau.

Y materion allweddol y bydd ein cynhadledd fywiog yn eu trafod yw:

- Sut y gallwn ddenu talent i'r sector a herio canfyddiadau pobl am sut beth yw hi i weithio yn ein sector.
- Sut y gallwn ddangos gwerth am arian a sut y gwnawn wahaniaeth i'n sefydliadau
- Gyda iechyd meddwl yn gyson yn y penawdau, sut y gallwn baratoi ein hunain a'n staff i fod yn fwy gwydn ac i allu ymdopi gyda gofynion gweithio yn niwylliant 24 awr heddiw, gan sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd a'r angen i arddangos gwerth am arian.
- Sut olwg a theimlad sydd ar y dyfodol ar gyfer Adnoddau Dynol mewn 10 mlynedd a beth sydd angen i ni wneud i ddechrau sicrhau ein bod yn barod am hyn.

Mae ein gweithdai yn llawn sesiynau dysgu gan eraill, canllawiau defnyddiol a sylw i ystod eang o bynciau o Brexit hyd at ddysgu digidol.

Nid ydym yn addo bod â'r holl atebion, ond rydym yn addunedu cynnig gofod ac amgylchedd yn llawn o bobl fydd yn ysgogi ac yn annog dadl, trafodaeth a myfyrio gan eich galluogi i adael ein cynhadledd gyda syniadau, ysbrydoliaeth a gobaith!

Edrychwn ymlaen at eich gweld yng Nghaerdydd ym mis Medi.

Phillipa Knowles
Cyfarwyddydd, Datblygu Sefydliadol ac Adnoddau

Cynhadledd Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu 2019

Gwesty Marriott, Caerdydd

26 Medi 2019

9.00am	Cofrestru, Gweld yr Arddangosfa a Brechdanau Brecwast
9.30 am	Croeso Siobhan Johnson, Cadeirydd Grŵp Cyflenwi Strategol Adnoddau Dynol
	I osod y llwyfan ar gyfer y diwrnod i ddod, bydd Siobhan yn amlinellu'r hyn sydd i ddod i gynrychiolwyr y gynhadledd a sut y bydd y Grŵp Cyflenwi Strategol Adnoddau Dynol yn gweithio i gyfarch rhai o'r materion hyn dros y 2½ mlynedd nesaf.
9.40 am	Lansio Dyma'r Sector Tai
	<i>Y Tîm Brandio – Kate Griffiths, CCHA, Donna Howells, UWHA, Mark Woods, Trivallis a Rebecca Goodhand, CHC</i>
	Canfu dau arolwg a gynhaliwyd gan CHC o bobl a ymunodd â'r sector yn y flwyddyn ddiwethaf a rhai nad ydynt yn gweithio yn y sector nad oedd 35% o ymatebwyr wedi meddwl am yrfa yn y sector tai. Gwyddom ei fod yn sector gwyach - felly sut mae cyfleu'r neges? Bu is-grŵp o Adnoddau Dynol a Chyfathrebu yn cydweithio dros y flwyddyn ddiwethaf a maent yma i lansio'r cam cyntaf i ddenu pobl i'r sector tai gyda lansiad gwefan Dyma'r Sector Tai.
10.00 – 10.45	<u>Is-sesiwn lawn 1</u>
	Police Now - Taro'r Post
	<i>Police Now</i>
	Wrth i ni ddechrau ar gam cyntaf ein hymgyrch brandio i ddenu pobl i'r sector tai, cawn gyfle i glywed gan yr Heddlu oedd yn ei chael yn anodd denu graddedigion i ymuno. Yn ôl yn 2015, canfu astudiaeth o fyfyrwyr prifysgol ar eu blwyddyn olaf nad oedd 83% ohonynt wedi ystyried gyrfa yn yr heddlu. Ond mewn dim ond 3 blynedd, mae rhaglen datblygu arweinyddiaeth

	graddedigion Police Now eisoes wedi sicrhau dros 650 o swyddogion heddlu gyda chanlyniadau gwych. Byddwn yn clywed sut y cyflawnwyd y trawsnewidiad anhygoel a'r hyn y gallwn ei ddysgu o'u hymgyrch.
--	---

10.00 – 10.45	<u>Is-sesiwn lawn 2</u>
	Ymladd Blinder - Yr hyn y gall Dysgu & Datblygu ei wneud i ymagnïo staff mewn dysgu

	<i>Robin Hoyle, Learnworks Cyf</i>
	Er ei edrychiad bachgennaidd, bu Robin yn gwneud y gwaith yma'n llwyddiannus ers 27 mlynedd ac mae'n ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol Dysgu & Datblygu i ymgysylltu a chyffroi dysgwyr o fewn y gweithlu. Bydd Robin yn llywio cynrychiolwyr ar sut i ymladd blinder dysgu drwy lunio rhaglen ddysgu fydd yn ymgysylltu staff a rheolwyr fel ei gilydd gan eu bod yn ei gweld yn berthnasol i'w gwaith bob dydd ac nid dim ond fel rhoi tic mewn blwch.

10.45 - 11.15am	Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio
------------------------	---

11.15 – 12.00pm	Datrys Cod Timau Perfformiad Uchel
	<i>Nick Fewings, Ngagementworks</i>
	Fel proffesiwn, rydym bob amser yn ymdrechu i ddatblygu timau perfformiad uchel o fewn ein sefydliadau. Mae gwaith tîm effeithlon yn hanfodol i lwyddiant pob sefydliad a hyd yn oed fwy felly mewn cyfnod o ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd, fodd bynnag, ychydig o sefydliadau sydd yn wirioneddol yn meintioli beth yw hynny, sut i'w fesur a sut i gyflawni perfformiad uchel mewn gwaith tîm. Dengys ymchwil mai dim ond 10% o dimau y gellir eu hystyried yn wirioneddol rhai perfformiad uchel, gyda 40% heb fod yn gweithredu'n iawn a'r 50% arall yn rhoi canlyniadau boddhaol. Sut allwn ni droi hyn o amgylch? Mae Nick Fewings yn credu ei fod wedi datrys y cod ar gyfer timau perfformiad uchel. Yn syml: "Mae dwy ffactor yn dylanwadu ar waith tîm, PWY sydd yn eich tîm, yng nghyswllt eu hymddygiad? a PHA mor effeithlon maent yn cydweithio." Dewch draw a chanfod sut y gallwn ddatrys y cod!

12.00-12.45pm Gweithdy 1

Tactegau ar gyfer Terfynu

Louise Price, Hugh James Cyfreithwyr

Bydd tîm Hugh James yn ymchwilio agweddau ymarferol defnyddio sgysiau gwarchodedig a chytundebau setliad i derfynu contract gweithiwr cyflogedig, gan roi dealltwriaeth gliriach i ni o'r hyn sy'n aml yn bwnc anodd.

Bydd y sesiwn yn ystyried pryd mae sgysiau gwarchodedig yn addas, cynghorion ymarferol ar sut i'w cynnal, cyngor ymarferol ar ba setliad i'w gynnig, arweiniad ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn unrhyw gytundeb setliad, a throsolwg o'r maglau posibl a sut i leihau risg hawliadau Tribiwnlys Diwydiannol.

12.00-12.45pm Gweithdy 2

Dylunio Strategaeth Gwobr a Budd Holistig i hybu twf

Balijinder Kang, Cyfarwyddydd Adnoddau Dynol, Midland Heart

Mae Midland Heart yn cyflogi dros 2,000 o bobl, mae ganddynt 33,000 o gartrefi a 70,000 o gwsmeriaid. Cawsant eu cydnabod gan y CIPD am eu strategaeth gwobr yn 2017 gan ei bod yn cydnabod sgiliau, ymddygiad a pherfformiad gweithwyr ar lefel unigol, tîm neu sefydliad.

Fe wnaethant gydnabod mai dim ond os yw rhaglenni gwobrau yn gydnaws gyda diwylliant eich sefydliad ac amcanion busnes penodol y gall rhaglenni gwobrau fod yn effeithlon. I gynyddu perfformiad, mae angen iddynt gysylltu gwaith bob dydd pobl gyda nodau strategol ac ariannol y sefydliad. Bydd strategaeth gwobr sy'n wirioneddol holistig ac a gaiff ei gyfathrebu'n effeithlon yn eich galluogi i lunio agweddau ac ymddygiad a hefyd hyrwyddo amgylcheddau mwy cynhwysol.

Dewch i glywed sut mae Midland Heart wedi:

- alinio eu strategaeth gwobr, eu hamcanion busnes ac anghenion pobl
- cynyddu ymgysylltu a chadw pobl
- creu amgylchedd mwy cynhwysol gyda help cynigion gwobr wedi'u targedu.

12.00-12.45pm Gweithdy 3

Creu diwylliant o ddysgu hunan-gyfeiriedig

Jane Hubbard, Cyfarwyddydd Adnoddau Dynol, Sw Caer

Sw Caer yw'r sw sy'n derbyn y nifer o ymweliadau ym Mhrydain ac mae'n elusen cadwraeth ac addysg sy'n ymroddedig i atal difodiad. Mae ganddynt 21,000 o anifeiliaid a 1,000 o aelodau tîm yn gofalu amdanyn nhw ac am ei gilydd.

Dysgodd eu tîm Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu fod grymuso gweithwyr i groesawu ymagwedd annibynnol at ddysgu yn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu hanghenion penodol ac ar eu datblygiad mewn sgiliau mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Gyda mwy o ddiddordeb, mae mwy o gyfle y byddant yn llwyddiannus wrth ddatblygu galluoedd newydd a gwella eu gwerth o fewn y sefydliad. Mae Sw Caer yn credu fod gan Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu rôl hanfodol mewn dylanwadu, gweithredu a chynnal diwylliant gweithle o ddysgu hunan-gyfeiriedig.

Bydd y sesiwn yn eich helpu i:

- arloesi'n effeithlon a gosod safonau ar gyfer dysgu cynhwysol
- annog grwpiau ffocws cymheiriaid, rhyngweithio a rhwydweithio
- hybu profiad dysgu drwy ofodau rhithiol a chyfryngau cymdeithasol

12.00-12.45pm Gweithdy 4

Niwrowyddoniaeth ar gyfer dysgu - gwella perfformiad drwy brofiadau cofiadwy

Allison Taylor, Central Consultancy and Training

Dim ond os yw'n gofiadwy ac y gellir ei roi ar waith yn y gweithle y bydd dysgu yn rhoi buddion diriaethol. Eto mae'n aml yn parhau wedi'i gyfyngu o fewn yr ystafell ddosbarth, gan fethu ennyn newid a chynyddu perfformiad pobl.

Gall niwrowyddoniaeth roi dealltwriaeth fwy cadarn i ni o'r dulliau tu ôl i gaffael a chadw dysgu a chynghorion ar sut i greu cynlluniau dysgu sy'n sicrhau newid ystyrlon sy'n parhau.

	Ymunwch ag Allison wrth iddi blymio'n ddwfn i niwrowyddoniaeth dysgu, yn cynnwys: • cipolwg ar sut mae'r ymennydd yn caffael, cadw ac adalw dysgu a gwybodaeth newydd • strategaethau i ymgysylltu eich dysgwyr drwy wneud dysgu'n berthnasol i fywyd bob dydd • gyrru newid ymddygiadol ystyrlon drwy brofiadau cofiadwy
--	--

12.00-12.45pm Gweithdy 5 Gweithredu'r system Adnoddau Dynol	
	<i>Bev Flood, Cartrefi Dinas Casnewydd</i>
	Bydd Bev yn amlinellu taith Cartrefi Dinas Casnewydd o symud i system yn bennaf ar bapur hyd at system Adnoddau Dynol gyfrifiadurol. Dewch draw i'r sesiwn ymarferol hon lle bydd Bev yn trafod y rhesymeg dros newid, y daith i newid, yr uchafbwyntiau a'r iselbwyntiau a'r pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer eraill sydd ar fin dechrau ar y daith.

12.45 – 1.30	Cinio, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio
1.30 – 2.15	<u>Is-sesiwn lawn 3</u>
	Trawsnewid Diwylliant Digidol
	<i>Angela Lewis, Cyfarwyddydd Trawsnewid Pobl, Tŷ Cwmnïau</i>
	Gall newid diwylliannol fod yn broses hir ac anodd. Bydd Angela'n rhannu'r glasbrint a ddatblygwyd gan y Tŷ Cwmnïau ar gyfer gwella diwylliannol a sut yr aeth o sefydliad lle'r oedd newid diwylliant yn wrth-reddfol, ynysig ac amrywiol i un sy'n gydweithredol, yn cael ei yrru gan allbwn ac sydd â ffocws ar y cwsmer. Nawr gyda gwell cadw staff, gwell datblygu, perfformiad uwch a "theimlad" cyffredinol gwell ar gyfer gweithwyr, nid yw'n ddim syndod y cafodd Tŷ Cwmnïau ei ddewis yn Gyflogwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Adnoddau Dynol Cymru.

Neu

1.30 – 2.15	<u>Is-sesiwn lawn 4</u>
	Beth sy'n newydd ac arloesol mewn dysgu digidol
	<i>Kate Graham, Fosway Group</i>
	Gyda dros 20 mlynedd o ddarparu mewnbwn dadansoddydd annibynnol i gleientiaid menter, mae gan Fosway arbenigedd sylweddol mewn gweithio gyda sefydliadau rhyngwladol mawr. Maent yn deall, mewn sefyllfa o newidiadau cyflym mewn gweithleoedd, gweithluoedd, opsiynau cyflenwyr a chystadleuaeth ar gyfer talent, bod byd Adnoddau Dynola Dysgu & Datblygu yn dod yn gynyddol heriol. Mae cwmnïau dan fwy o bwysau nag erioed i ailddyfeisio prosesau dysgu i fod yn fwy ystwyth, yn fwy digidol ac i ddarparu mwy o werth a mwy o effaith busnes. A yw arloesi mewn dysgu'n wirioneddol bwysig? Mae Kate yma i ateb y cwestiwn hwnnw ac arwain trafodaethau ar sut i fanteisio i'r eithaf o ddysgu digidol, hysbysu cynrychiolwyr beth yw'r datblygiadau cyffrous sy'n newid y gêm mewn dysgu digidol a sut y gallwch reoli'r risg o arloesi'n llwyddiannus.

2.15 – 3.00pm	<u>Gweithdy 6</u>
	Brexit - golwg ymarferol ar y newidiadau yn y gyfraith
	<i>Richard Thomas a Susie Matthisen, Capital Law</i>
	Pwy ŵyr adeg ysgrifennu'r rhaglen yma os yw Brexit wedi digwydd neu os bydd yn digwydd - ond beth ddylem ni fod yn ei wneud fel arweinwyr Adnoddau Dynol i baratoi ein sefydliadau ar gyfer effaith Brexit? Bydd y gweithdy yn sesiwn ymarferol fydd yn eich helpu i baratoi ar gyfer Brexit neu ymateb i Brexit os yw wedi digwydd!

2.15 – 3.00pm	<u>Gweithdy 7</u>
	Creu dull gweithredu pobl yn gyntaf ar gyfer Adnoddau Dynol
	<i>Jane Jones, Grŵp Curo</i>

	Mae sefydliadau gwych yn sylweddoli mai eu pobl yw eu cwsmer rhif un. Os ydynt yn cymryd gofal o'u pobl, eu hyfforddi a'u grymuso, bydd y bobl hynny yn ymgysylltu'n llawn ac yn frwdfrydig iawn am yr hyn a wnânt. Byddwn yn clywed gan Jane ar sut mae Curo Housing wedi creu dull gweithredu pobl yn gyntaf ar gyfer eu gwasanaethau Adnoddau Dynol drwy feithrin newid diwylliant sy'n gwerthfawrogi pobl a chanlyniadau.
--	---

2.15 – 3.00pm Gweithdy 8

Dyfodol Dysgu

	<i>Neil Almond, 91 Untold</i>
	Mae 91 Untold yn hyb ar gyfer twf a newid cadarnhaol. Gyda'i ddull aml-ddimensiynol o hyfforddiant ac ymgynghori, maent yn credu mewn stori newydd feiddgar lle aiff pobl tu hwnt i'w terfynau presennol, chwalu rhwystrau a dechrau dylanwadu ar eu byd er gwell. Defnyddio a dweud eu stori dawel. A gwneud i bethau cadarnhaol ddigwydd. Yn y gwaith, ac mewn bywyd. Bydd Neil yn llywio cynrychiolwyr drwy drawsnewid o dîm hyfforddi i dîm dysgu modern. Bydd yn arwain trafodaethau ar beth yw'r dulliau a thechnegau effeithlon ar gyfer trawsnewid digidol a pha heriau a chyfleoedd sydd i'w coleddu ar hyd y ffordd.

2.15 – 3.00pm Gweithdy 9

Rôl Dysgu a Datblygu fel Gwneuthurwyr Newid

	<i>Melanie Lopine, Pennaeth Dysgu, Datblygu Talent, Grŵp Domestic & General</i>
	Mae Melanie yn weithiwr proffesiynol profiadol mewn Adnoddau Dynol a Dysgu, gan arbenigo mewn Rheoli Newid Byd-eang, Cynllunio Pobl Strategol, Arloesi mewn Dysgu a Datblygu Talent. Mae wedi arwain timau dysgu a datblygu yn y sectorau manwerthu, cyllid a theithio premiwm a ffordd o fyw. Bydd Melanie yn ymchwilio effaith y newidiadau yn y byd ar yr amgylchedd gwaith sy'n esblygu ac yn dynodi beth fyddai hyn yn ei olygu i dimau Dysgu a Datblygu a sut y gallant aros o flaen y gêm. Bydd Melanie yn herio cynrychiolwyr i feddwl am ddysgu fel galluogydd ar gyfer y sefydliad a sut y gall Dysgu & Datblygu fod yn wneuthurwyr newid.

2.15 – 3.00pm	<u>Gweithdy 10</u> Allan â'r hen, mewn â'r newydd
	<i>Fflur Jones, Partner, Darwin Gray</i>
	Bydd Fflur yn herio cynrychiolwyr a dangos sut y gallwn wneud y defnydd gorau o ddata personol a data personol sensitif i sicrhau gweithlu amrywiol. Yn y sesiwn ymarferol yma, bydd Fflur hefyd yn rhoi cyngor da ar sut i ennyn newid diwylliant cadarnhaol o fewn eich gweithlu drwy ddefnyddio cymhellion, ymgynghori ac ymadawiadau.
3.00 – 3.30pm	Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio
3.30 – 4.15	Datblygu gwytnwch
	<i>Ian Rothwell a Paul Chudleigh, R W Learning</i>
	Rydym yn byw mewn cyfnod o hanes na welwyd ei debyg. Ni fu sefydliadau erioed mor gymhleth ac anodd ag ydynt heddiw. Mae arweinwyr, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol yn wynebu ystod rhyfeddol o gynlluniau newydd, arfer gorau, syniadau am welliannau a rheoliadau cyfreithiol ... y cyfan mewn cyd-destun lle mae'n rhaid i ni fod mor ddarbodus ag sydd modd a chynyddu potensial pob adnodd sydd ar gael i'r eithaf. Os fu erioed amser pan mae gwytnwch yn allweddol, dyma'r amser. Yn y sesiwn ddiddorol a chymhellol hon, bydd Ian a Paul yn amlinellu'r fethodoleg a chynghor da i ganolbwyntio'r meddwl, y corff a'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau canlyniadau ardderchog.
4.15 – 4.45pm	<u>Dyfodol Adnoddau Dynol</u>
	<i>Edward Houghton</i> <i>Pennaeth Ymchwil ac Arweinyddiaeth Syniadau CIPD</i>
	Os oes unrhyw un yn gwybod beth yw'r dyfodol ar gyfer Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu - mae'n sicr fod yr ateb gan y CIPD fel ein corff proffesiynol? Dim pwysau Ed!

	Rydym i gyd mor brysur yn ein gwaith bob dydd fel mai prin y cawn amser i godi'n golygon allan o'r niwl i edrych ar y gorwel. Fodd bynnag, gan fod gweledigaeth Gorwelion Tai CHC yn dweud fod yn rhaid i gymdeithasau tai fod yn ymwybodol o heriau'r dyfodol a pharatoi ar eu cyfer, fel arall ni fedrwn ymateb i'r newid mewn demograffeg, ffyrdd o weithio ac agweddau at waith. Bydd Ed yn rhoi sylw i'r hyn a gred y CIPD yw'r heriau allweddol sy'n wynebu ein proffesiwn a'r hyn sydd angen i ni wneud nawr i baratoi ar gyfer hyn.
--	---

4.45pm	Casgliadau'r Gynhadledd
	Ar ôl diwrnod llawn, rhyngweithiol ac ysgogol o drafodaeth, bydd Siobhan yn crynhoi negeseuon allweddol y gynhadledd a'r deilliannau allweddol o'r diwrnod.

4.50pm	Gadael
---------------	---------------